# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015 am 2.00 pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ann Davies, Meirick Davies, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts, Alice Jones, Gwyneth Kensler, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Cefyn Williams a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a’r Parth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cefnogi Cwsmeriaid ac Addysg (JW) ac Addysg (KE); Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC); Prif Gyfrifydd (RW) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol gydag eitem 5 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies - Llywodraethwr Ysgol Cefn Meiriadog ac Ysgol Trefnant
Y Cynghorydd Alice Jones – Llywodraethwr Ysgol y Faenol
Y Cynghorydd Huw Jones – Llywodraethwr Ysgol Caer Drewyn ac Ysgol Carrog

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol gydag eitemau 5, 6 a 7 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Bobby Feeley - Llywodraethwr Ysgol Stryd y Rhos
Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - Llywodraethwr Ysgol Pen Barras a Nithoedd yn Ysgol Rhewl
Y Cynghorydd Martyn Holland - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
Cynghorydd Dewi Owens – Llywodraethwr Ysgol Glan Clwyd ac Ysgol Fabanod Llanelwy.
Y Cynghorydd Merfyn Parry – Llywodraethwr Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor

Y Cynghorydd Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
Y Cynghorydd David Smith – Ŵyr yn Ysgol Pen Barras
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa
Y Cynghorydd Cefyn Williams – Llywodraethwr Ysgol Bro Dyfrdwy
Y Cynghorydd Huw Williams – mab yn Ysgol Pen Barras

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn nodi manylion canfyddiadau ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn a gofyn am gefnogaeth y Cabinet i gyhoeddi'r cynigion statudol gofynnol ar gyfer cau'r ddwy ysgol a chreu ysgol ardal newydd. Y cynnig yw y bydd yr ysgol ardal newydd yn Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth yr Eglwys yng Nghymru (dwy ffrwd) Categori Iaith 2. Byddai'r ysgol ardal newydd yn defnyddio safleoedd presennol hyd nes oedd wedi'i chyfuno ar un safle mewn adeilad newydd.

Eglurodd y Cynghorydd Williams gyd-destun y cynnig fel rhan o'r adolygiad ysgolion ardal Rhuthun ehangach i ddiogelu cynaliadwyedd darpariaeth addysg yn yr ardal yn y dyfodol. Prif faes y gynnen oedd categoreiddio arfaethedig yr ysgol newydd. Cefnogodd mwyafrif o ymatebwyr yr ymgynghoriad o Ysgol Llanfair ysgol Categori 2 tra roedd ymatebwyr o Ysgol Pentrecelyn eisiau Categori 1 (cyfrwng Cymraeg). Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd yn bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion teuluoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Roedd perygl y byddai rhieni o gartrefi teuluoedd di-Gymraeg yn dewis anfon disgyblion i ysgolion cyfrwng Saesneg os oedd yr ysgol ardal newydd yn Gategori 1. O ganlyniad, ystyriodd y Cynghorydd Williams mai Categori 2 oedd yr opsiwn gorau ar gyfer cynnal ac o bosibl cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y ddwy iaith. Roedd gan y ddwy ysgol ethos a diwylliant Cymraeg cryf gyda phob disgybl yn gadael yr ysgol yn rhugl yn y ddwy iaith ac roedd yn hyderus y byddai hyn yn parhau yn yr ysgol ardal newydd.

Ystyriodd y Cabinet yr ymatebion i'r ymgynghoriad a dadleuon ynghylch y cynnig a gofynnwyd am eglurhad am ddiffiniadau categoreiddio iaith o fewn ysgolion a chanlyniadau disgwyliedig. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch dynodiad crefyddol, buddsoddi cyfalaf a goblygiadau ariannol; ynghyd â hyfywedd yr ysgol arfaethedig pe bai rhieni yn boicotio'r ysgol ardal newydd. Fel aelod lleol dywedodd yr Arweinydd am ei gysylltiadau personol gyda'r ddwy gymuned a llwyddiant y ddwy

ysgol. Tynnodd sylw at bwysigrwydd pwyso a mesur yr holl wybodaeth a gyflwynwyd er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer darparu addysg yn yr ardal. Cododd gwestiynau hefyd ynglŷn ag ethos yr ysgol newydd a'r rhesymau dros beidio dilyn opsiynau eraill a awgrymwyd ar gyfer darpariaeth leol.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i faterion a godwyd -

- esboniwyd cyd-destun y broses gategoreiddio a chyfeiriwyd at ddogfen arweiniad Llywodraeth Cymru (2007) er mwyn diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (2010) o ran addysg ddwyieithog. Nodwyd bod disgyblion ffrwd Gymraeg mewn ysgolion Categori 2 yn gorfod cyflawni'r un canlyniadau â disgyblion mewn ysgolion Categori 1. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion o Ysgol Llanfair yn trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol uwchradd. Roedd y Cynghorydd Huw Jones yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gyda'r nod o bob disgybl yn gadael yr ysgol yn hyderus yn y ddwy iaith - roedd yn cefnogi ysgol Categori 2 i hwyluso'r broses hon
- roedd yr ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn partneriaeth ag Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, Llanelwy oedd yn cefnogi'r cynnig ar gyfer ysgol Categori 2 a Reolir yn Wirfoddol gan yr Eglwys yng Nghymru
- o ran cynaliadwyedd ysgol ardal yn y dyfodol dywedodd swyddogion os oedd holl rieni o Ysgol Pentrecelyn (35 o ddisgyblion) yn ceisio darpariaeth Categori 1 yn y dyfodol byddai'r ysgol yn dal yn gynnig ymarferol. Roedd Ysgol Llanfair (94 o ddisgyblion) yn cefnogi ysgol Categori 2 a byddai perygl mawr o ran hyfywedd os byddai'r cynnig yn newid i Gategori 1.
- pe bai rhieni yn dymuno anfon eu plant i'r ysgol Categori 1 amgen agosaf, gellid datblygu capasiti yn adeilad yr ysgol newydd ar gyfer Ysgol Pen Barras a byddai ceisiadau'n cael eu hystyried yn unol â pholisi derbyn
- tynnwyd sylw'r aelodau at baragraff 4.9 o fewn yr adroddiad yn manylu ar y trefniadau llywodraethu a'r trefniadau diogelu i sicrhau ethos cryf presennol a chedwid statws i'r Gymraeg yn yr ysgol newydd.
- roedd swyddogion yn ymhelaethu ar yr opsiynau a gyflwynwyd gan Ysgol Pentrecelyn a pham eu bod wedi cael eu diystyru fel yr opsiwn gorau ar gyfer yr ardal.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn siarad o blaid dynodiad Categori 1 ar gyfer yr ysgol ardal newydd. Teimlai bod dyfodol y Gymraeg o dan fygythiad a byddai'r cynnig categoreiddio iaith yn groes i Strategaeth Addysg Llywodraeth Cymru. Cododd gwestiynau hefyd ynglŷn â chanlyniadau cludiant ysgol a disgyblion. Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn awyddus am gyfaddawd derbyniol i'r ddwy ysgol ac wedi codi cwestiynau ynghylch y prosesau statudol a'r categoreiddio iaith. Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies am eglurhad pellach ar nifer o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Darparwyd yr ymatebion canlynol i faterion a godwyd -

- ategwyd y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig ar gyfer ysgol Categori 2 fel modd o ehangu'r iaith Gymraeg
- cydnabuwyd y byddai newid mewn arweinyddiaeth bob amser yn risg ond rhoddwyd sicrwydd o ran mesurau ar waith i ddiogelu yn erbyn gwanhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol ardal newydd yn y dyfodol

- esboniwyd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer darparu cludiant ysgol, yn enwedig o ran categorïau iaith ac ysgol ffydd
- esboniwyd y broses statudol pe bai'r Cabinet yn penderfynu cyhoeddi'r hysbysiad i gau ysgol – roedd perygl y gallai unrhyw her yn y dyfodol gael effaith negyddol ar y potensial i adeiladu ysgol ardal newydd
- ni ystyriwyd bod dynodi'r ysgol ardal newydd yn ysgol Eglwys yn risg gydag ychydig o wrthwynebiad i'r elfen honno o'r cynnig
- darparwyd ymateb i'r holl bwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac eglurwyd y rhesymeg y tu ôl i'r gwahanol gategorïau ysgolion mewn adolygiadau ardal eraill
- Adroddodd y Cynghorydd Huw Jones ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a sut roedd Sir Ddinbych yn anelu at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir – darparodd rai ystadegau i ddangos y cynnydd mewn safonau Cymraeg o fewn ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf.

Ar ôl ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ymatebion i faterion a godwyd, ac o gofio nad oedd dim gwahaniaeth yn y canlyniadau ar gyfer disgyblion yn y ddwy ysgol, cefnogodd y Cabinet y cynnig fel ffordd o sicrhau'r ddarpariaeth addysg orau posibl ar gyfer disgyblion yn yr ardal. Diolchodd yr Arweinydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r drafodaeth gan dynnu sylw at yr angen i gefnogi'r Gymraeg a'i gwneud yn hygyrch i bawb drwy ddarparu cyfle i siaradwyr di-Gymraeg i ddysgu. Ni all y Cyngor gynnal y nifer presennol o ysgolion o fewn y sir ac roedd ganddo ddyletswydd i sicrhau darpariaeth addysg gorau posibl o fewn yr ardal. Roedd yn gobeithio y byddai creu ysgol ardal newydd yn dwyn y ddwy gymuned ynghyd i'r perwyl hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;*

*(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016; ac i'r Eglwys yng Nghymru sefydlu Ysgol Ardal Wirfoddol a Reolir newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016, a*

*(c) nodi'r opsiwn i rieni wneud cais i anfon eu plant i Ysgol Pen Barras fel ysgol arall pe baent yn dymuno i'w plant aros o fewn ysgol Categori 1.*

Ar y pwynt hwn (3.40pm) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 6 YSGOL RHEWL

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad yn manylu ar y canfyddiadau o'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer dyfodol Ysgol Rhewl ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi'r cynnig statudol gofynnol ar gyfer cau'r ysgol gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor adeiladau'r ysgol newydd.

Rhoddodd y Cynghorydd Williams gefndir i'r adolygiad o ysgolion cynradd yn y sir ac esboniodd gyd-destun y cynnig fel rhan o'r adolygiad o ysgolion ardal Rhuthun ehangach, gan dynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â lleoedd gwag a buddsoddi mewn adeiladu ysgolion newydd i sicrhau'r addysg orau bosibl ar gyfer disgyblion yn yr ardal. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad roedd y farn yn parhau y byddai'r cynnig i gau'r ysgol a throsglwyddo disgyblion yn cynrychioli'r dewis gorau i sicrhau bod disgyblion yn yr ardal yn gallu parhau i gael mynediad i addysg o safon dda mewn cyfleusterau modern, addas i bwrpas.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad a chanfyddiadau'r ymgynghoriad, yn arbennig o ran effaith iaith a gofynnwyd am eglurhad yn y cyswllt hwn a cholli darpariaeth ddwyieithog. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch capasiti mewn ysgolion eraill i symud disgyblion a phryderon rheoli traffig. Darparwyd yr ymatebion canlynol -

- cyfeiriodd swyddogion at ganllawiau Llywodraeth Cymru 'Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg' (2007) a'r broses categoreiddio iaith a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth a chyrhaeddiad. Roedd ysgol gynradd dwy ffrwd yn cynnig dau fath o ddarpariaeth gyda'r opsiwn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Roedd y canlyniadau ar gyfer y ffrwd Gymraeg fel Categori 1 a'r ffrwd Saesneg fel Categori 5. Cyfeiriwyd hefyd at Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru (2010) a oedd yn cynnwys diffiniad o ddarpariaeth ddwyieithog – term a ddefnyddir i gyfeirio at ystod eang o sefydliadau dysgu ac addysgu a allai gynnwys amrywiaeth o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Tra yn hanesyddol roedd rhai disgyblion o Ysgol Rhewl wedi trosglwyddo i'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol uwchradd nid oedd neb wedi gwneud hynny yn y blynyddoedd diwethaf. Os byddai'r ysgol yn cau byddai yna ddarpariaeth amgen o fewn y cyd-destun categoreiddio
- wrth gydnabod y cyfoeth o ymatebion yn erbyn y cynnig, roedd yr achos dros gau yn seiliedig ar yr angen i ad-drefnu ysgolion a mynd i'r afael â lleoedd gwag a materion cynaliadwyedd. Dim ond 20 o'r 54 o ddisgyblion oedd yn byw yn Rhewl/Llanynys gyda'r gweddill yn byw y tu allan i'r ardal honno
- rhoddwyd sicrwydd y bydd digon o gapasiti yn y system ysgol i adleoli disgyblion – roedd y cynnig yn cyd-daro ag agor ysgolion newydd yng Nglasdir ac yn dilyn trafodaethau â rhieni byddai digon o le yn cael ei gynllunio i ddarparu ar gyfer disgyblion
- cadarnhawyd y byddai astudiaeth rheoli traffig yn cael ei gynnal ynghyd ag asesu llwybrau mwy diogel fel rhan o'r astudiaeth dichonoldeb manwl o safle Glasdir.

Siaradodd y Cynghorydd Merfyn Parry yn erbyn y cynnig a chyfeiriodd at ei e-bost diweddar i'r Cabinet yn manylu ar ei farn ar yr adroddiad a gyflwynodd ef ar ran llywodraethwyr Ysgol Rhewl. Tynnodd sylw penodol at y pwyntiau canlynol –

- pryderon ynghylch addasrwydd y llwybr ar gyfer disgyblion o Rewl i Glasdir
- cyfeiriad at argymhellion y Pwyllgor Seneddol na ddylai ysgolion newydd gael eu datblygu ger prif ffyrdd, fel y cynigiwyd yng Nglasdir
- cyfeiriad at adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar gategoreiddio iaith ysgolion a statws Ysgol Rhewl
- nid oedd statws dwyieithog yr ysgol wedi derbyn sylw priodol – unwaith yr oedd yn hysbys bod asesu yn y Gymraeg yn ddangosydd ar gyfer darparu trwy

gyfrwng y Gymraeg roedd 4 disgybl wedi eu nodi ar unwaith a allai gael eu hasesu yn y Gymraeg gyda 10 – 12 o ddisgyblion posibl a allai gael eu hasesu yn ddiweddarach
- pe bai rhieni'n dymuno cael darpariaeth Categori 2 yr unig opsiwn fyddai Ysgol Llanfair
- byddai’n cael effaith enfawr ar y gymuned pe bai’r ysgol yn cau
- nid oedd effaith y datblygiad tai ar gyfer y dyfodol wedi'i egluro.

Dywedodd y Cynghorydd Parry bod y Cabinet wedi trafod rhinweddau ysgol Categori 2 o dan yr eitem flaenorol ond roedd bellach yn trafod cau ysgol o'r fath ac yn gorfodi rhieni i ddewis rhwng Categori 1 (Cymraeg) a Chategori 5 (Saesneg).

Darparwyd yr ymatebion canlynol -

- cadarnhawyd y broses gategoreiddio ar gyfer ysgolion yn Sir Ddinbych fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau – cydnabuwyd dros y 2/3 blynedd diwethaf na fu unrhyw ddisgybl yn yr ysgol drwy'r ffrwd cyfrwng Cymraeg o ran canlyniadau ond roedd yr ysgol wedi bod yn gweithio i ddatblygu’r cynnig hwnnw a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yng nghyd-destun y lleoliad dwy ffrwd, y canlyniadau disgwyliedig oedd Categori 1 ar gyfer y ffrwd Gymraeg a Chategori 5 ar gyfer y ffrwd Saesneg
- y cynnig oedd i gau'r ysgol gyda disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Pen Barras (Categori 1) neu Stryd Rhos (Categori 5) - os oedd dewis y rhieni ar gyfer Categori 2 byddai ceisiadau'n cael eu hasesu fel rhan o'r broses derbyn ysgol arferol yn seiliedig ar gapasiti, fodd bynnag ni fyddai cludiant ysgol am ddim yn cael ei ddarparu os oedd hynny'n cynnwys mynd heibio ysgol sy'n cynnig yr un ddarpariaeth
- eglurwyd argymhellion y Pwyllgor Seneddol ac roeddent yn cyfeirio at Gymru a Lloegr – nid oeddent yn cael eu hystyried yn berthnasol yn yr achos hwn.

Mewn ymateb i'r cwestiynau pellach eglurwyd polisi’r Cyngor ynghylch gwaredu hen adeiladau ysgol ac eglurwyd y byddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn cael eu clustnodi ar gyfer moderneiddio prosiectau addysg. Rhoddwyd sicrwydd hefyd bod y Cabinet wedi cael golwg ar holl ymatebion i'r ymgynghoriad a'r cyfle i brofi unrhyw gynnig arall.

Diolchodd y Cynghorydd Parry i'r Cabinet am ddarllen yr ymatebion ac anogodd aelodau i feddwl yn ofalus am y cynnig i gau ysgol bentref ffyniannus. Wrth wneud yr argymhellion dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams na chymerwyd y penderfyniad i argymell cau’r ysgol yn ysgafn ac roedd ganddo lawer o empathi gyda'r ysgol ond roedd yn credu mai dyma’r opsiwn gorau ar gyfer dyfodol addysg disgyblion yn Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi canfyddiadau’r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Rhewl, a*

*(b) chymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd.*

Ar y pwynt hwn (4.30pm) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 7 YSGOL LLANBEDR

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn rhoi manylion trafodaethau gydag Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanbedr a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Llanbedr ar 31 Awst 2016 gyda disgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Wirfoddol a Reolir Borthyn, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

Ailadroddodd y Cynghorydd Williams y rhesymeg y tu ôl i'r adolygiad o ysgolion cynradd yn y sir a chyd-destun Ysgol Llanbedr fel rhan o'r adolygiad ehangach o ardal Rhuthun. Roedd yr achos dros newid wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn amlygu amcanestyniadau o ran lleoedd gwag a materion dros gynaliadwyedd a hyfywedd yr ysgol a safonau addysg a chyrhaeddiad yn y dyfodol. Yn dilyn penderfyniad i wrthod y cynnig cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, roedd swyddogion wedi ymgynghori gyda'r Eglwys yng Nghymru ynglŷn â dyfodol yr ysgol. Roedd yr Esgobaeth wedi cyflwyno cynnig amgen a oedd yn cynnwys atal yr ymgynghoriad arfaethedig i gau ysgol i ganiatáu i bartner ffederasiwn gael ei sicrhau a newid statws i gwirfoddol a gynorthwyir, gydag ymrwymiad i adolygu dyfodol yr ysgol ym mis Mai 2018. Roeddent yn credu y byddai'r cynnig hwn yn mynd i'r afael ag amcanion y Cyngor o leihau costau a mynd i'r afael â lleoedd gwag. Dywedodd y Cynghorydd Williams y gellid cyflwyno cynigion mwy manwl yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol a byddai swyddogion yn gweithio gyda'r Esgobaeth yn hynny o beth.

Roedd y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad a myfyrio ar eu cyfarfod diweddar gyda'r Esgobaeth ynghylch eu cynnig. Oherwydd y diffyg manylder ac achos busnes cadarn, ni ellid gwneud gwerthusiad o hyfywedd y cynnig. Eglurwyd y byddai unrhyw ddatblygiad o'r cynnig angen cael ei wneud gan yr Esgobaeth, ond byddai swyddogion yn barod i weithio gyda nhw a darparu unrhyw wybodaeth berthnasol.

Mynegodd y Cynghorydd Huw Williams ei siom bod y mater o gau yn dal i gael ei ystyried a gofynnodd i'r ymgynghoriad gael ei ohirio er mwyn caniatáu amser i'r cynnig ar gyfer ffederasiwn gael ei ddatblygu – teimlodd y gall sgyrsiau yn y dyfodol â darpar bartneriaid gael ei beryglu os byddai'r ymgynghoriad ar gyfer cau yn mynd ymlaen. Hefyd atgoffodd y Cabinet bod cyllid i ddatblygu'r cynigion adolygu ardal Rhuthun wedi'i sicrhau ac nad oedd yn ddibynnol ar gau'r ysgol. Roedd y Cynghorydd Dewi Owens hefyd yn teimlo'n gryf y dylid gohirio'r ymgynghoriad ac y dylai'r Cyngor a'r Esgobaeth gydweithio i ddatblygu cynnig y ffederasiwn. Roedd y Cynghorydd Martyn Holland yn amlygu manteision ffedereiddio fel dewis real yn lle cau ac yn cyfeirio at y goblygiadau posibl ar niferoedd y disgyblion sy'n deillio o ddatblygiadau tai newydd. Gofynnodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts am eglurhad ar nifer y disgyblion a phwysleisiodd yr angen i feddwl am y plant yr effeithir arnynt. Darparwyd yr ymatebion fel a ganlyn –

- eglurwyd bod y cynnig i gau ysgol yn destun ymgynghoriad newydd a byddai aelodau'n aros â meddwl agored ac yn ystyried yr holl ymatebion, gan gynnwys unrhyw gynnig amgen a gyflwynwyd
- rhoddwyd sicrhad y byddai hyfywedd unrhyw gynigion amgen yn cael eu hasesu a'u cyflwyno i'r Cabinet ynghyd ag ymatebion i'r ymgynghoriad llawn ar gyfer ystyriaeth
- y ffigwr amcanestyniad disgyblion oedd 53 erbyn 2020 – roedd capasiti wedi'i adolygu ar gais y corff llywodraethu a byddai'n cynyddu i 77 o Medi 2016, eto ar gais y Corff Llywodraethu
- cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar y mater ffederasiwn a phan gafodd ei godi'n wreiddiol, roedd hyn yn cynnwys pam bod ffedereiddio gydag Ysgol Borthyn wedi'i ddiystyru, methiant yr Esgobaeth i gyflwyno cynnig amgen ar gyfer ffedereiddio yn gynharach, a phwysleisiwyd yr angen am bartneriaid ffederasiwn bodlon.

Teimlai'r Cabinet y dylid datrys yr ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol mor fuan â phosibl ac nad oedd digon o wybodaeth wedi'i darparu gan yr Esgobaeth i gyfiawnhau atal ymgynghoriad ffurfiol ar gau'r ysgol. Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai'r Esgobaeth yn cael digon o amser yn ystod y cyfnod ymgynghori i ddatblygu cynnig manwl amgen ac roeddent yn croesawu'r ymagwedd honno.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y cynigion i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Llanbedr ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion presennol i Ysgol Wirfoddol a Reolir Borthyn, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.*

## 8 ADRODDIAD CYLLID A DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynyddu buddsoddiad mewn cynnal a chadw priffyrdd. Arweiniodd yr aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol –

- crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16
- crynodeb o'r arbedion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16 gan ardal gwasanaeth
- sefyllfa ddiweddaraf ar y Cynllun Corfforaethol, newidiadau allweddol a rhagdybiaethau, a'r
- angen am fuddsoddiad ychwanegol o £800mil y flwyddyn ar gyfer priffyrdd i gynnal y ffyrdd i'r safon bresennol – yn seiliedig ar y tybiaethau diweddaraf o fewn y Cynllun roedd yn bosibl i ariannu'r adnodd ychwanegol hwn.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r buddsoddiad ychwanegol ar gyfer priffyrdd er mwyn cynnal safonau ac osgoi dirywiad yn ffyrdd y sir. Trafododd yr Aelodau sut y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei dargedu i gynnal gwelliannau. Eglurwyd y byddai'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cyflwyno ei gynigion drwy Grwpiau Ardal yr Aelodau ac nid oedd gofyniad i wario'r dyraniad cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y Prif Weithredwr eisiau arian wedi'i dargedu i sicrhau bod canlyniad y Cynllun Corfforaethol ar gyfer priffyrdd yn cael ei gyflawni. Roedd trafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i roi cyhoeddusrwydd i ymrwymiad y

Cyngor a buddsoddi yn ffyrdd y sir – cytunwyd y dylai'r Aelod Arweiniol perthnasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gwrdd â'r wasg yn uniongyrchol i esbonio'r sefyllfa a'r canlyniad cadarnhaol. O ran arbedion roedd y Cabinet hefyd yn falch o nodi bod 71% o arbedion ar gyfer 2015/16 eisoes wedi'i gyflawni gydag arbedion sy'n weddill hefyd yn cael eu datblygu. Byddai unrhyw danwariant o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad alldro ariannol i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf.

Cytunodd y Cabinet i addasu geiriad yr argymhelliad ar gyfer eglurder.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) nodi cyllidebau ac arbedion 2015/16, a*

*(b) chymeradwyo'r cynigion i gynyddu gwariant ar gynnal a chadw priffyrdd o £800mil y flwyddyn a chadarnhau'r rhagdybiaethau a nodir yn y Cynllun.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried ac roedd yr aelodau'n nodi nifer o newidiadau.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

### Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 10 CONTRACT PFI - Y DIWEDDARAF

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol a rhoddodd ddiweddariad i'r Cabinet ar y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch terfynu contract Cynllun Ariannu Preifat Rhuthun.

Darparwyd manylion y contract ynghyd â'r camau a gymerwyd hyd yma a'r camau nesaf yn y broses. Roedd swyddogion yn ymateb i gwestiynau ynglŷn â rheoli'r broses a'r darpariaethau terfynu ynghyd â risgiau ariannol cysylltiedig. O ran amserlen byddai'r contract yn cael ei derfynu o fewn chwe mis. Cytunwyd i dderbyn adroddiad cynnydd mewn cyfarfod yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05pm.